# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| **Cynghorydd:** | Anthony Colburn | Adran Etholiadol: | Ystumllwynarth |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliais gymorthfeydd misol, es i gyfarfodydd PACT (Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd) a chyfarfodydd Fforwm y Pentref.

Yr agwedd fwyaf gwobrwyol ar fy ngwaith fel cynghorydd yw rhyngweithio ag etholwyr. Darparais wybodaeth, cymorth a chyngor dros y ffôn, drwy e-bost ac yn bersonol ar bob math o broblemau gan gynnwys cynllunio, sbwriel, biniau cŵn, toiledau cyhoeddus, parcio, diogelwch ffyrdd a llifogydd - gan gymryd camau gweithredu lle y bo angen.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Penodiadau | 24 | / | 24 | 100 | % |
| Pwyllgor Rheoli Datblygu Ardal 2 | 12 | / | 12 | 100 | % |
| Gweithgor y Cyfansoddiad | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Y Cyngor | 15 | / | 15 | 100 | % |
| Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd | 7 | / | 8 | 88 | % |
| Pwyllgor Datblygu Rheoli a Rheolaeth | 8 | / | 8 | 100 | % |
| Pwyllgor Cydraddoldeb | 12 | / | 12 | 100 | % |
| Panel Llywodraethwyr yr ALI | 10 | / | 10 | 100 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu | 14 | / | 15 | 93 | % |
| Is-bwyllgor Trwyddedu | 5 | / | 5 | 100 | % |
| Grŵp Ymgynghori'r Cynllun Datblygu Lleol | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 16 | / | 16 | 100 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr | 3 | / | 3 | 100 | % |
| CYFFREDINOL | 128 | / | 130 | 98 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Eisteddais ar amrywiaeth o Baneli Ymchwilio Craffu.

Aelod o Gyngor Cymuned y Mwmbwls, Llywodraethwr AALl yn Ysgol Gynradd Ystumllwynarth a Llywodraethwr Cymunedol yn Ysgol Gynradd Newton.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Gwnes fonitro datblygiadau adeiladu sylweddol arfaethedig yn y ward a'r Lagŵn Llanw arfaethedig, y gelwais gyfarfodydd cyhoeddus amdanynt fel y gellid trafod ei effaith ar Ystumllwynarth ag arbenigwyr technegol.

Ar gais gan breswylwyr, dechreuais yr ymgyrch i osod cynllun parcio "preswylwyr yn unig" yn Southend.

Cerddais yn rheolaidd o amgylch y ward i adrodd am unrhyw waith y cyngor roedd angen ei wneud.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi bod i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

21/02/2014 - Sgiliau Gwrando'n Astud
19/02/2014 - Sgiliau Cadeirio
22/01/2014 - Rheolau Trafod
13/01/2014 - Cofrestru Etholiadol Unigol
17/12/2013 - Hyfforddiant Cyflwyniad i'r Cyfryngau
06/11/2013 - Sgiliau Hyfforddi Cadeirio
25/10/2013 - Magu Plant Corfforaethol
17/10/2013 - Deallusrwydd Emosiynol
14/10/2013 - Cyn-benderfynu

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rwyf hefyd yn aelod o Leng Brydeinig Frenhinol y Mwmbwls a De Gŵyr ac yn drefnydd casglu pabïau.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 27 Hydref 2014 |